

Rhan 2 Ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 11 oed

Gweithgaredd 6

Ganed Pawb Yn Rhydd

Nod: Cyflwyno plant i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR). Drwy ysgrifennu creadigol ac adrodd stori, daw plant yn gyfarwydd â rhai o'r hawliau dynol sylfaenol a'u hystyr. **Amser:** 1-2 awr. **Oedran:** 7+. **Yr hyn sydd ei angen arnoch:** darluniau *Ganed Pawb yn Rhydd / We Are All Born Free* (ar y CD, cyflwynwch fel PowerPoint). Yn ogystal, argraffwch ddau neu dri chopi o bob un o'r 12 llun, digon i bob disgybl gael llun yr un.

Beth i'w wneud

Drwy gyfrwng hanes

Esboniwch fod arweinwyr y byd wedi dod at ei gilydd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, pan gollodd miliynau o bobl eu bywydau a gyrrwyd miliynau mwy o'u cartrefi. Sefydlodd yr arweinwyr hyn sefydliad newydd – sef Y Cenhedloedd Unedig – er mwyn hwyluso terfyn ar ryfeloedd rhwng gwledydd ac adeiladu byd gwell. Un o'i swyddogaethau cyntaf oedd llunio rhestr o hawliau dynol sydd yn eiddo i bawb yn y byd. Yr enw a roddwyd i'r rhestr oedd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR). Addawodd llywodraethau'r byd y byddent yn sôn wrth bawb am yr hawliau hyn a'u diogelu.

Maent yn cynnwys ein hawl i fyw, i briodi, i fynd i'r ysgol ac i chwarae; ein hawl i fyw a lloches ac i deithio, ein hawl i feddwl ac i fynegi'r hyn rydym yn ei gredu ynddo; ein hawl i gael ein trin yn deg; a'n hawl i heddwch a threfn.

Esboniwch fod pob un o'r 30 hawl sydd yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wedi eu darlunio mewn llyfr o'r enw *Ganed Pawb yn Rhydd / We Are All Born Free*. Dangoswch yr arddangosfa lluniau PowerPoint *Ganed Pawb yn Rhydd / We Are All Born Free* ac esboniwch mai dyma enghraifft o rai o'r hawliau a'r darluniau hynny.

Rhannwch y darluniau o amgylch y dosbarth gan wneud yn siŵr bod dau neu dri phlentyn yn gweithio (yn wahân) ar bob darlun. Gofynnwch i'r plant edrych ar eu darlun a darllen y geiriau'n ofalus dros ben.

Yn dilyn hyn, gofynnwch i bawb ddechmygu eu hunain y tu mewn i'w lluniau, ac yn cymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd yno. Gofynnwch idynt ysgrifennu stori fer ynglŷn â'i hantur yn y llun. Mae'n rhaid i'r stori fod ynglŷn â'u hawliau dynol, a rhywle yn y stori mae'n rhaid i rywun ddweud y geiriau sydd yn eu herhygl hwy o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol.

Ar ôl ysgrifennu'r straeon, dylai'r plant sydd â'r un erthygl a'r un darlun eistedd gyda'i gilydd a rhannu eu straeon.


- Oedd eu straeon yn debyg o gwbl?
- Beth weithiodd yn dda/beth fyddent yn ei wneud yn wahanol?

Rhannwch rhai o'r straeon fel dosbarth cyfan a/neu gwnewch arddangosfa ohonynt.

Ffynhonnell: *Our World Our Rights*, Gweithgaredd 4.

Roedd Eleanor Roosevelt yn ystyried y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol fel ei llwyddiant mwyaf, ac ar ben-blwydd y Datganiad yn ddeg oed dywedodd:

'Ble, yn y pen draw, mae hawliau dynol yn cychwyn? Mewn lleoedd bach, yn agos i adre; ym mywyd pob dydd bodau dynol – yn y cymunedau maent yn byw ynddynt, yn yr ysgolion a'r colegau maent yn eu mynychu, y ffatrioedd, fferymydd a swyddfeydd lle maent yn gweithio, lle mae pob dyn, menyw a phlentyn yn chwilio am gyfiawnder a chyffe cyfartal, urddas cyfartal heb unrhyw wahaniaethu. Oni bai bod gan yr hawliau hyn ystyr a phwrpas yno, prin yw eu hystyr a'u pwrpas yn unrhyw le. Heb weithredu pwrpasol gan ddinasyddion i gynnal yr hawliau hyn yn agos i gartref, byddwn yn chwilio'n ofer am unrhyw gynnydd yn y byd ehangach.'



We Are All Born Free, a gyhoeddwyd gan Amnest Rhyngwladol a Frances Lincoln 2008.

